**Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

**Darpariaeth Arbenigol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

*Sylwer bod yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn cynnwys dolenni i ddogfennau sydd ar gael yn fewnol yn unig. Dogfennau cyfeirio at ddibenion gweithwyr Cyngor Caerdydd yw'r rhain ac nid ydynt yn rhan o'r asesiad ei hun.*

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn cwmpasu gofynion adran Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn Asesiad Effaith Sengl Cyngor Caerdydd yn ogystal â Chod Statudol Trefniadaeth Ysgolion, Tachwedd 2018.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Trefniadaeth Ysgolion yn ystyried i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a gymeradwywyd a sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg ac yn achos yr olaf, yn nodi pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau.

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Ymgynghoriad:** | **DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY): CAM 1** |
| **Disgrifiad Cryno o'r cynnig:** | Mae'r Cyngor yn cynnig ychwanegu lleoedd fel a ganlyn: |

| Ysgol | Cynyddu/Newydd | Lleoedd presennol | Lleoedd newydd | Math | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Baden Powell | Cynyddu | 8 | 16 | CAA ILlE Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Gynradd y Tyllgoed | Cynyddu | 8 | 16 | CAA ILlE Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Coed-y-gof* | Newydd | 0 | 8 | CAA ILlE Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Arbennig Greenhill | Cynyddu | 64 | 128 | Ysgol Arbennig ILlE Uwchradd | Safle gwag Ysgol Arbennig The Court, Llanisien |
| Ysgol Gynradd Hywel Dda | Newydd | 0 | 10 | CAA ACC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Gynradd Radnor ** | Newydd | 0 | 30 | CAA ACC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Glan Morfa* | Newydd | 0 | 10 | CAA ACC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | Newydd | 0 | 42 | CAA ACC Uwchradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Bro Edern* | Newydd | 0 | 10 | CAA ACC Uwchradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Gynradd Adamsdown | Newydd | 0 | 10 | CAA ADC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Gynradd Pencaerau | Newydd | 0 | 20 | CAA ADC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | Newydd | 0 | 20 | CAA ADC Cynradd | Adeiladau presennol |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | Cynyddu | 98 | 110 | Ysgol Arbennig ADC Cynradd | Adeiladau presennol |

**Darpariaeth Arbenigol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | Cynyddu | 240 | 300 | Ysgol Arbennig ADC / CM | Safle presennol / safle gwag Ysgol Arbennig Riverbank |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | Cynyddu | 300 | 320 | Ysgol Arbennig ADC / CM | Adeilad newydd yn Nhŷ Glas |
| Ysgol Uwchradd Woodlands | Cynyddu | 240 | 300 | Ysgolion Arbennig ADC Uwchradd | Campws Cymunedol y Tyllgoed/ safle presennol |
| Ysgol Uwchradd Woodlands | Cynyddu | 300 | 360 | Ysgolion Arbennig ADC Uwchradd | Adeilad newydd yn Vincent Road |
| Ysgol Gynradd Hywel Dda | Cynyddu | 10 | 20 | CAA ACC Cynradd | Adeilad newydd ar y safle |

* = Darpariaeth Gymraeg
** = ehangu fesul cam, 10 lle newydd y flwyddyn am 3 blynedd

Mae manylion llawn y newidiadau arfaethedig wedi'u cynnwys yn y dogfennau ymgynghori sydd i'w gweld yn Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

| | |
|---|---|
| **Pam mae newid yn cael ei gynnig?** | Mae galw cynyddol am leoedd arbenigol i ddysgwyr oed cynradd ac uwchradd sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a dim digon o lefydd a gynhelir ar gael gan y Cyngor i ddiwallu'r galw. |
| **Ydy'r newid arfaethedig yn newid dros dro neu barhaol?** | Byddai'r newidiadau arfaethedig yn darparu cynnydd parhaol yn nifer y lleoedd arbenigol cynradd ac uwchradd Saesneg a Chymraeg i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. |
| **Pryd y bwriedir i'r newid ddod i rym?** | Byddai'r newidiadau arfaethedig yn dod yn weithredol o fis Ionawr 2027 gyda'r eithriadau canlynol:<br>• Byddai'r ganolfan arfaethedig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn dod yn weithredol o fis Medi 2027<br>• Byddai'r cynnydd o 300 i 320 o leoedd yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn digwydd o fis Medi 2030<br>• Byddai'r cynnydd o 300 i 360 o leoedd yn Ysgol Uwchradd Woodlands yn digwydd o fis Medi 2032.<br>• Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol arfaethedig yn Ysgol Gynradd Radnor yn darparu 10 lle yn 2026/27 gyda chwmpas i ymestyn i 20 lle yn 2027/28 a 30 lle yn 2028/29.<br>• Byddai'r cynnydd o 10 i 20 o leoedd yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Hywel Dda yn digwydd yn 2028/29 |
| **Ble mae modd gweld rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad?** | Gallwch weld rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad yn: Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) |

**Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

**Darpariaeth Arbenigol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Rhan B: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae gwybodaeth i'ch helpu i gwblhau'r asesiad hwn ar gael yma:
Datblygu Polisi a Chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Cysylltwch â Thîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog i gael unrhyw gymorth wrth gwblhau'r asesiad hwn, drwy e-bostio Materion Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Matters.

## Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg 88-93 a 95-97 yn ymwneud â'r broses o ddatblygu polisi. Maen nhw'n disgrifio'r gofynion i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fydd polisïau newydd yn cael eu datblygu, neu pan fydd polisïau presennol yn cael eu diwygio. Mae'r safonau hyn yn mynd i'r afael â phob cam o'r broses o ddatblygu polisi, gan gynnwys asesu ei effaith ar y Gymraeg, ymgynghori, a chomisiynu ymchwil ategol. Gellir dod o hyd i Hysbysiad Cydymffurfio llawn Cyngor Caerdydd yma.

Mae'n **rhaid** i chi ddarparu tystiolaeth, yn enwedig o unrhyw ymarferion ymgynghori neu ymgysylltu a gynhaliwyd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, er mwyn cefnogi eich sylwadau drwy gydol y ddogfen, p'un a ydych yn nodi effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral.

**NODWCH: Tros-sgwennwch unrhyw destun llwyd, mae yno fel canllaw yn unig i chi. Gwnewch yn siŵr bod lliw ffont eich atebion yn ddu am resymau hygyrchedd.**

## Effaith

Mae safonau 88-90 yn ymwneud yn benodol â pha effaith, os o gwbl, sydd gan eich cynnig (boed yn benderfyniad polisi, polisi neu strategaeth newydd neu ddiwygiedig, neu ddarpariaeth gwasanaethau diwygiedig) ar yr iaith Gymraeg ac ar siaradwyr Cymraeg. Gallai'r effaith a nodwyd fod yn **uniongyrchol neu'n anuniongyrchol** a rhaid cynnwys unrhyw dystiolaeth o'r fath.

| | | |
|---|---|---|
| **Beth fydd effaith y cynigion hyn ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?** *Ticiwch y blwch priodol.* | Cadarnhaol | ☒ |
| | Negyddol | ☐ |
| | Niwtral | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **Beth fydd effaith y cynigion hyn ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?** *Ticiwch y blwch priodol.* | Cadarnhaol | ☒ |
| | Negyddol | ☐ |
| | Niwtral | ☐ |

**Yn seiliedig ar eich atebion uchod, rhowch sylwadau a thystiolaeth ategol yn y blychau perthnasol ar y cwestiynau canlynol.**

**Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

**Darpariaeth Arbenigol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

| **A ellid llunio neu ail-lunio'r cynnig hwn, fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol?**<br><br>**A ellid llunio neu ail-lunio'r cynnig hwn i sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu effaith llai andwyol?** |
|---|
| Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gyda chynnydd yn nifer y lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol arbenigol cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg.<br><br>Byddai sefydlu Canolfan Adnoddau Iechyd a Lles Emosiynol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, canolfan Awtistiaeth/Cyfathrebu Cymdeithasol Cymraeg yn Ysgol Glan Morfa, a chanolfan Awtistiaeth/Cyfathrebu Cymdeithasol Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, yn cefnogi twf addysg Gymraeg yn uniongyrchol ac yn cyd-fynd â deilliannau, nodau a dyheadau Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog a chynllun 10 mlynedd CSCA Cyngor Caerdydd:<br><br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymateb yn uniongyrchol i Ddeilliant 6:<br><br>• Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 253.<br><br>Byddai'r cynigion yn gwella dosbarthiad lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn cynyddu nifer y lleoedd arbenigol cyfrwng Cymraeg, gan ganiatáu i ddysgwyr gael cymorth priodol ac i rieni fod yn hyderus y bydd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu, yn yr iaith o'u dewis.<br><br>Sefydlwyd Canolfan Iechyd a Lles Emosiynol ar gyfer dysgwyr oed uwchradd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr ym mis Medi 2024. Byddai sefydlu Canolfan Adnoddau Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn darparu mynediad at ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr oed cynradd, gan sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais a'u bod yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Sefydlwyd canolfan awtistiaeth ar gyfer dysgwyr oed uwchradd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ym mis Medi 2023, yn ogystal â'i chanolfan bresennol ar gyfer anghenion dysgu cymhleth.<br><br>Ar hyn o bryd, cynigir darpariaeth ysgol arbennig i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.<br><br>Mae darpariaeth canolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.<br><br>Dangosodd adborth o'r arolwg a gyflwynwyd i ysgolion ym mis Mai a mis Mehefin 2025 fod angen cynyddu'r ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid gwybodaeth yr |

arolwg hwn yn dangos cyfran y dysgwyr a allai fod yn gymwys i gael lle mewn ysgol arbennig neu le mewn canolfan adnoddau arbenigol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried, ar y cyd â Phenaethiaid Ysgolion Arbennig Caerdydd, y ffordd orau o ddarparu ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd angen lle mewn ysgol arbennig.

Nid oes gan ysgolion arbennig cymunedol yng Nghymru gategori iaith dynodedig diofyn, yn ôl Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Gallant ddynodi categori iaith yn wirfoddol os yw eu darpariaeth yn cyd-fynd ag un o'r categorïau safonol (e.e., Prif Iaith - Cymraeg neu Ddwy Iaith).

Mae hyn oherwydd:

- Mae ysgolion arbennig cymunedol yn aml yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth neu amrywiol, a allai fod angen dulliau addysgol unigol iawn arnynt.
- Mae hyblygrwydd yn y ddarpariaeth iaith yn caniatáu i ysgolion arbennig deilwra eu cwricwlwm i anghenion penodol eu disgyblion, heb gael eu cyfyngu gan gategori penodol.
- Mae'r opsiwn dynodi gwirfoddol yn sicrhau y gellir cydnabod ysgolion sydd â darpariaeth Gymraeg gref o hyd.

Rhaid i ysgolion arbennig cymunedol baratoi cynllun cyflawni addysg Gymraeg, sy'n amlinellu:

- Faint o addysg Gymraeg a ddarperir.
- Cynigion i hyrwyddo ethos a diwylliant Cymraeg.
- Cymorth i rieni nad ydynt, o bosib, yn hyderus yn y Gymraeg.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion arbennig, ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr y nodir eu bod yn gymwys ar gyfer lle mewn ysgol arbennig, y mae angen addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwy iaith, neu lle ffefrir hynny, ar eu cyfer.

## Ymgynghoriad

**A gafodd ymgynghoriad ei gynnal i gynorthwyo â datblygu'r cynnig, yn unol â safonau 91-93?**

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw<br>*Os naddo, ewch yn syth i'r adran nesaf 'Grantiau'.* | ☐ |

**Os do, wrth ymgynghori ar y cynnig, a gafodd safbwyntiau eu hystyried, a'u ceisio, ar yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) y byddai'r cynnig yn ei gael ar y Gymraeg ac o ran siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ehangach?**

| |
|---|
| **A wnaeth yr ymgynghoriad geisio ac ystyried barn ar sut y gallai'r cynnig gael effeithiau cadarnhaol, neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol?**<br><br>**A wnaeth yr ymgynghoriad geisio ac ystyried barn ar sut y gallai'r cynnig beidio â chael effeithiau andwyol, neu leihau'r effeithiau andwyol?**<br><br>*Dylech gynnwys copi o'r cwestiwn/cwestiynau ymgynghori sy'n berthnasol i'r Gymraeg isod ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol.* |
| Mae Cabinet y Cyngor wedi awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar y newid arfaethedig.<br><br>Bydd yr ymgynghoriad yn:<br><br>• cyhoeddi dogfennau ymgynghori dwyieithog yn nodi cefndir, rhesymeg a goblygiadau i rieni, staff a llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ledled y ddinas, Aelodau etholedig, trigolion lleol a rhanddeiliaid eraill<br>• cyhoeddi dogfen gryno ddwyieithog a oedd yn nodi prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori<br>• cyhoeddi gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill<br>• cyhoeddi Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg<br>• cyhoeddi Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned<br>• cynnig cyfarfodydd ymgynghori i bob Corff Llywodraethu a staff (yn ôl yr angen) trwy Microsoft Teams<br>• cynnig cyfarfodydd ymgynghori wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr disgyblion<br>• cyfarfod ymgynghori cyhoeddus wyneb yn wyneb lle caiff y cynigion eu hesbonio a chwestiynau eu hateb.<br>• sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb a thrwy Microsoft Teams lle mae swyddogion ar gael i ateb cwestiynau<br>• byddai llythyrau’n nodi manylion y cynigion a sut mae cael gafael ar ragor o wybodaeth yn cael eu hanfon at breswylwyr a busnesau lleol yng nghyffiniau safleoedd yr ysgol sy’n destun y newidiadau arfaethedig<br>• ymgyrch gyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• slip ymateb i'r ymgynghoriad i'w ddychwelyd drwy'r post neu e-bost ar gael i’w lawrlwytho ar-lein yn Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)<br>• Ffurflenni ymateb ar-lein yn Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)<br><br>Bydd y safbwyntiau a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn llawn ac yn llywio cam nesaf y broses. |

## Grantiau

**A yw'r cynnig yn cynnwys dyfarnu grantiau?**

| | |
|---|---|
| Ydy | ☐ |
| Nac ydy<br>*Os nac ydy, ewch yn syth i'r adran nesaf 'Ymchwil'.* | ☒ |

| **Os ydy, a oes ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r canllawiau a gyflwynwyd ym [Mholisi'r Cyngor ar Ddyfarnu Grantiau mewn Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg](#) o ran:**<br>**a) Y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br>**b) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?** |
|---|
| |

## Ymchwil

**A gynhaliwyd neu a gomisiynwyd ymchwil i gynorthwyo gyda datblygu'r cynnig?**

| | |
|---|---|
| Do | ☒ |
| Naddo<br>*Os naddo, ewch yn syth i'r adran nesaf 'Deunydd a Gwasanaethau'.* | ☐ |

| **Os do, a wnaeth yr ymchwil ystyried a fyddai'n cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar:**<br>**a) Y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br>**b) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?** |
|---|
| Dangosodd adborth o arolygon a gyflwynwyd i ysgolion ym mis Mai a mis Mehefin 2025 fod angen cynyddu'r ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth arolwg yma'n dangos cyfran y dysgwyr a allai fod yn gymwys i gael lle mewn ysgol arbennig neu le mewn canolfan adnoddau arbenigol.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ystyried, ar y cyd â Phenaethiaid Ysgolion Arbennig Caerdydd, y ffordd orau o ddarparu ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd angen lle mewn ysgol arbennig. |

| **A wnaeth yr ymchwil a wnaed neu a gomisiynwyd i gynorthwyo â datblygu'r cynnig roi ystyriaeth i sut y gallai gael effaith gadarnhaol, neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol?**<br><br>**A wnaeth yr ymchwil a wnaed neu a gomisiynwyd i gynorthwyo â datblygu'r cynnig roi ystyriaeth i sut y gallai beidio â chael effeithiau andwyol, neu leihau'r effeithiau andwyol?** |
|---|
| Dangosodd adborth o arolygon a gyflwynwyd i ysgolion ym mis Mai a mis Mehefin 2025 fod angen cynyddu'r ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth arolwg yma'n dangos cyfran y dysgwyr a allai fod yn gymwys i gael lle mewn ysgol arbennig neu le mewn canolfan adnoddau arbenigol. |

**Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

**Darpariaeth Arbenigol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

| |
|---|
| Mae'r Cyngor wedi ystyried, ar y cyd â Phenaethiaid Ysgolion Arbennig Caerdydd, y ffordd orau o ddarparu ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd angen lle mewn ysgol arbennig. |

## Deunyddiau a Gwasanaethau

Yn ogystal â'r asesiad effaith i sicrhau bod y cynnig yn ateb gofynion Safonau'r Gymraeg, rhaid ystyried hefyd y deunyddiau a'r gwasanaethau ategol a allai fod eu hangen.

Ewch i safle Caerdydd Ddwyieithog neu cliciwch ar y canlynol i weld rhagor o wybodaeth am faterion penodol:

- Gohebiaeth - derbyn ac ateb (negeseuon e-bost, llythyrau, cyfathrebu ar-lein).
- Cyrsiau Hyfforddiant Addysg
- Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus - cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus, cyfarfodydd grŵp, ymgynghori, cyfarfodydd unigol.
- Rhestr Wirio Caffael
- Llunio Ffurflenni
- Llunio Dogfennau Cyhoeddus - polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol, cynlluniau corfforaethol, canllawiau, hysbysiadau, codau ymarfer, papurau ymgynghori, trwyddedau, tystysgrifau, rheolau, llyfrynnau, taflenni, pamffledi neu gardiau, tocyn/talebau.
- Cyhoeddiadau Sain Cyhoeddus
- Negeseuon Cyhoeddus – electronig – fideo
- Cyhoeddusrwydd a Hysbysebu
- Gwasanaethau Derbynfa
- Peiriannau Hunan-wasanaeth
- Arwyddion, Hysbysiadau a Deunydd Arddangos
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Ffôn - derbyn ac ateb galwadau.
- Gwefannau, Apiau a Gwasanaethau Ar-lein
- Canllawiau'r Gymraeg i Drydydd Partïon

| **A yw'r holl ddeunyddiau a gwasanaethau ategol yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg? Os nad ydynt, anfonwch unrhyw waith cyfieithu gofynnol at Log Cyfieithu Caerdydd Ddwyieithog – gellir dod o hyd i'r ffurflen gais yma.** |
|---|
| Bydd yr holl ddeunyddiau ymgynghori, cyfathrebiadau a manylion ar wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog er mwyn sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg fynediad at yr holl wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â'r cynnig.<br><br>Bydd unrhyw ohebiaeth ynglŷn â'r newid sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg.<br><br>Bydd aelod Cymraeg o'r Tîm Cynllunio Ysgolion ar gael i drafod unrhyw geisiadau am wybodaeth dros y ffôn. |

## Gofynion Staffio

Lluniwyd Strategaeth Sgiliau Cymraeg a dogfennau canllaw ychwanegol i gefnogi ei gweithredu:

- Asesu Sgiliau Cymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol
- Gweithdrefnau Recriwtio, Dethol a Chyfweld a'r Gymraeg.

| A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i chi i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynnig yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg? |
|---|
| Mae digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynnig yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg. |

## Monitro Camau Gweithredu Lliniarol

**Rhestrwch unrhyw gamau gweithredu lliniarol isod. Sut caiff y cynnydd ei fonitro?**

*Rhowch fanylion y camau gweithredu lliniarol hyn; sut y caiff y camau gweithredu eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau, er enghraifft drwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth; pryd y disgwylir i'r camau gweithredu lliniarol gael eu cyflawni; a phwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r camau gweithredu.*

| Cam Lliniarol | Trefniadau Monitro | Dyddiad Cyflwyno Disgwyliedig | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Camau Nesaf

Mae'n rhaid i chi anfon yr AES wedi'i gwblhau at Dîm Polisi Caerdydd Dwyieithog MaterionPolisiIaithGymraeg@caerdydd.gov.uk sy'n cadw cofnod o'r holl Asesiadau Effaith ar y Gymraeg a gynhelir gan y Cyngor.

Os yw'r cynnig yn rhan o benderfyniad gan y Cyngor, y Cabinet neu Swyddog, rhaid i chi gynnwys yr Asesiad Effaith Sengl fel atodiad i'r adroddiad(au) perthnasol ar bob cam o'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys y Cyngor, y Cabinet, Pwyllgorau Craffu ac wrth ymgysylltu â'r Undebau Llafur.

**Gofynion Ychwanegol Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018**

| Categori iaith yr ysgol (diffiniadau yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru WG43283) |
|---|
| **Ysgolion cyfrwng Cymraeg** |

Mae Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ac Ysgol Glan Morfa yn ysgolion cynradd Cymraeg (Categori 3).

Diffinnir hyn fel a ganlyn:

Cymraeg yw prif iaith gyfathrebu mewnol yr ysgol. Cyfathrebir â rhieni a gofalwyr naill ai yn Saesneg, Cymraeg neu yn ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cryf wrth ei chraidd, sy'n cefnogi a galluogi ei dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol.

Mewn lleoliad trochi yng Nghymru, mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar adegau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod camau trochi cynnar.

O 7 oed ymlaen, bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn ysgol uwchradd Gymraeg (Categori 3).

Diffinnir hyn fel a ganlyn:

I bob ysgol yn y categori hwn, y Gymraeg yw prif iaith cyfathrebu mewnol. Cyfathrebir â rhieni a gofalwyr naill ai yn Saesneg, Cymraeg neu yn ddwyieithog yn ôl yr angen.

Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cryf yn ganolog iddi, sy'n cefnogi a galluogi ei dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg ac yn Gymraeg yn ôl oedran a gallu.

**<u>Ysgolion cyfrwng Saesneg</u>**

Mae Ysgol Gynradd Adamsdown, Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Hywel Dda, Ysgol Gynradd Pencaerau, Ysgol Gynradd Peter Lea ac Ysgol Gynradd Radnor yn ysgolion Saesneg (Categori 1).

Diffinnir hyn fel a ganlyn:

Saesneg yw prif iaith cyfathrebu mewnol yr ysgol yn ogystal â gyda rhieni a gofalwyr.  Mae cydnabyddiaeth y bydd creu ethos Gymraeg yn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg.

Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn Saesneg yn ôl oedran a gallu, a bydd ganddo rywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i hasesu'n rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.

Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

Mae Ysgol Uwchradd Fitzalan yn ysgol uwchradd Saesneg (Categori 1)

Diffinnir hyn fel a ganlyn:

Saesneg yw prif iaith cyfathrebu mewnol yr ysgol yn ogystal â gyda rhieni a gofalwyr. Mae cydnabyddiaeth y bydd creu ethos Gymraeg yn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg.

Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn cael ei addysgu yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg a bydd yn gallu darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn Saesneg yn ôl oedran a gallu. Mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.

Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

**Ysgolion Arbennig**

Nid oes gan ysgolion arbennig cymunedol yng Nghymru gategori iaith dynodedig diofyn, yn ôl Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Nid oes gan Ysgol Arbennig Greenhill, Ysgol Arbennig Meadowbank, Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn nac Ysgol Uwchradd Woodlands gategori iaith dynodedig.

**Categori iaith unrhyw ysgol amgen (diffiniadau yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru** WG43283)

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud ag ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol i ddysgwyr cynradd ac uwchradd Cymraeg a Saesneg.

Y Cyngor sy'n rheoli derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol, yn unol â'r Cod ADY. Panel lleoli darpariaeth arbenigol sy'n penderfynu ar leoliadau. Nod y panel yw gosod plant mor agos i'w cyfeiriad cartref â phosib, fodd bynnag mae pob darpariaeth yn cynnig lleoedd i ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas i sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf.

Byddai penderfyniadau ynghylch pa ddisgyblion y cynigir fyddai'n mynychu'r darpariaethau newydd/estynedig yn cael eu gwneud ar sail unigol. Ni ragwelir y bydd dysgwyr yn trosglwyddo o leoliadau arbenigol presennol oni bai bod eu rhieni yn gofyn am hyn.

Gallai opsiynau amgen i ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgolion a gynhwysir yn y newidiadau arfaethedig gynnwys:

- Gwneud dim - ond nid oes digon o leoedd arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor na dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.

- Sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu niferoedd gwahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r holl safleoedd ysgolion prif ffrwd ac arbennig yng Nghaerdydd.

Mae amrywiaeth o gynigion posib wedi'u nodi a byddant yn cael eu cyflwyno fesul cam i ganiatáu ar gyfer datblygu cynigion ymhellach, adolygu data poblogaeth a'r galw am leoedd anghenion dysgu ychwanegol yn barhaus, y prosesau statudol angenrheidiol a gweithredu effeithiol.

Y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon yw'r cam cychwynnol i fynd i'r afael â'r galw uniongyrchol am leoedd Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol.

Mae safonau yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion yn dda ac mae gan yr ysgolion hanes llwyddiannus o gynnig cymorth ansawdd uchel i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae lleoliad yr ysgolion hefyd yn cefnogi dosbarthiad lleoedd Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol ledled y ddinas ac mae lle i ddatblygu'r gofod gofynnol o fewn yr adeiladau presennol.

Felly, ystyrir bod y cynigion a gyflwynwyd yn opsiwn a ffefrir.

**Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw ysgol amgen (e.e. clybiau'r Urdd, Mentrau Iaith)**

**<u>Ysgolion cyfrwng Cymraeg</u>**

Mae Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn darparu clybiau ar ôl ysgol sy'n cael eu cynnal gan staff a'r Urdd, ac sy'n cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae llyfrgell yr ysgol ar agor ar ôl ysgol unwaith yr wythnos i alluogi rhieni i ddarllen gyda'u plant ac i fenthyg llyfrau. Mae yna ystod eang o lyfrau sy'n addas ar gyfer brodyr a chwiorydd iau a hŷn, ac i rieni.

Mae gan yr ysgol ystafell gymunedol sy'n cael ei defnyddio gan grwpiau yn ystod oriau ysgol. Mae sesiynau Aros a Chwarae wedi cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r ystafell wedi cael ei defnyddio hefyd ar gyfer gweithgareddau cyfrwng Saesneg gan Rianta Caerdydd.

Bydd y gweithgareddau hyn yn parhau os eir ymlaen i ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol arfaethedig.

Mae amrywiaeth o glybiau a gweithgareddau yn cael eu cynnal yn Ysgol Glan Morfa:

- Clybiau'r Urdd a chymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd.
- Clybiau chwaraeon cyfrwng Cymraeg fel pêl-droed, rygbi a dawns.
- Gweithgareddau Cewri Cymrecitod yn hyrwyddo'r Gymraeg bob dydd ar draws yr ysgol.
- Cylch Meithrin ar y safle, yn cefnogi datblygiad cynnar y Gymraeg.

- Gofal plant ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg drwy Goldstars

Bydd y gweithgareddau hyn yn parhau os eir ymlaen i ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol arfaethedig.

Nid yw clybiau Cymraeg y Fenter a'r Urdd wedi bod yn cael eu cynnal yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern oherwydd diffyg gofod addas ar hyn o bryd, ond byddai gwelliannau arfaethedig i'r neuadd chwaraeon yn caniatáu i'r clybiau hyn ailddechrau eu gweithgarwch.

**Ysgolion cyfrwng Saesneg**

Mae Ysgol Gynradd Adamsdown yn cysylltu â'r Urdd i redeg clybiau chwaraeon ar ôl ysgol.

Mae gan Ysgol Uwchradd Fitzalan ddisgwyliadau uchel o ran datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion ac mae'n cefnogi disgyblion yn effeithiol i ddatblygu'r sgiliau hyn (Estyn Tachwedd 2024) ac mae'n darparu'r canlynol:

- Siarter Iaith
- Grwpiau Llysgenhadon y Gymraeg
- Eisteddfod
- Yr Urdd (cynnal cystadlaethau)

Nid oes gan Ysgol Gynradd Hywel Dda unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg ac nid yw'n darparu cyfleusterau i aelodau o'r gymuned ddysgu Cymraeg nac ymgymryd â gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Ysgol Gynradd Pencaerau yn cynnal Grwp Urdd ac yn cynnal cyrsiau Cymraeg i rieni.

Mae Ysgol Gynradd Peter Lea yn cynnal clwb wythnosol Criw Cymraeg ar ôl ysgol i ddysgwyr o Flynyddoedd 2 – 6

Bydd  unrhyw weithgareddau presennol yn parhau os eir ymlaen i ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol arfaethedig.

Bydd gwybodaeth am Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac Ysgol Gynradd Radnor yn cael ei diweddaru yn ystod yr ymgynghoriad.

**Ysgolion Arbennig**

Mae'r Urdd yn rhedeg darpariaeth amser cinio yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn ac Ysgol Uwchradd Woodlands

Bydd y gweithgareddau hyn yn parhau os eir ymlaen i ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol arfaethedig.

**Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

**Darpariaeth Arbenigol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**A yw'r ysgolion yn darparu cyfleusterau i aelodau o'r gymuned ddysgu Cymraeg ac ymgymryd â gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg? Ble gellid darparu unrhyw gyfleusterau amgen?**

Mae llyfrgell Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ar agor ar ôl ysgol unwaith yr wythnos i alluogi rhieni i ddarllen gyda'u plant ac i fenthyg llyfrau. Mae yna ystod eang o lyfrau sy'n addas ar gyfer brodyr a chwiorydd iau a hŷn, ac i rieni.

Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau i rieni i'w helpu i gefnogi plant gartref, gyda themâu addysgol fel llythrennedd a rhifedd ac iechyd a lles emosiynol.

Nid yw'r ysgol yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i'r gymuned ddysgu Cymraeg, ond efallai y bydd hyn yn cael ei ystyried yn y dyfodol.

Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae Menter Caerdydd yn cynnal cynllun chwarae am ddim yn yr ysgol am ddwy awr, pedwar bore yr wythnos. Mae hyn yn digwydd ym mhob gwyliau'r ysgol, gyda thair wythnos o ddarpariaeth yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r cynllun yn agored i blant o'r oedran targed waeth pa ysgol maen nhw'n ei mynychu; nid yw wedi'i gyfyngu i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn unig.

Mae Ysgol Glan Morfa yn darparu'r canlynol:

- Mae'r ysgol yn cynnal digwyddiadau, gweithdai a dathliadau i'r teulu trwy gyfrwng y Gymraeg yn rheolaidd e.e. Gwersi Cymraeg (Wythnosol)
- Yn annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ar y safle, ac mae'r ysgol yn cyfeirio teuluoedd i gyrsiau Cymraeg i Oedolion drwy Gyngor Caerdydd a'r Urdd.
- Yn cynnal Cylch Meithrin ar y safle sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar Cymraeg i'r gymuned.

Nid oes unrhyw gynlluniau i leihau'r gweithgareddau a gynigir ac felly nid oes angen cyfeirio teuluoedd at ysgolion amgen.

**A fyddai'n briodol darparu cyfleusterau ar ôl ysgol ychwanegol mewn unrhyw ysgol amgen er mwyn sicrhau safonau pellach yn y Gymraeg?**

Amherthnasol. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud ag ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nid oes unrhyw gynlluniau i leihau'r gweithgareddau a gynigir ac felly nid oes angen cyfeirio teuluoedd at ysgolion amgen.

**Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion ag unrhyw ysgol amgen ac unrhyw gynigion iaith penodol sydd ar gael (e.e. sut y bydd disgyblion yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau a ddarperir gan yr Urdd, Mentrau Iaith)**

Amherthnasol. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud ag ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nid oes unrhyw gynlluniau i leihau'r gweithgareddau a gynigir ac felly nid oes angen cyfeirio teuluoedd at ysgolion amgen.

**A yw Fforwm Addysg Gymraeg Cyngor Caerdydd wedi darparu unrhyw sylwadau ar y cynigion hyn? (Rhowch fanylion)**

**Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

**Darpariaeth Arbenigol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

| |
|---|
| Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud ag ehangu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol av ymateb yn uniongyrchol i Ddeilliant 6 y CSCA sydd yn nodi bwriad y Cyngor i gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.<br><br>Mae Fforwm y Cyngor yn goruchwylio'r gwaith o weithredu blaenoriaethau'r CSCA ac fe geisir barn y Fforwm fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus. |
| **Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod? A fydd angen unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid er mwyn parhau i gydymffurfio â'r cynllun neu i gyflawni targedau'r cynllun?** |
| Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg' ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac mae' nodi'r ymagwedd hirdymor tuag at gyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), yn nodi targed deng mlynedd i gynyddu nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg. Rhaid i bob awdurdod lleol bennu ei darged yn unol â'r ystod a roddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol cyffredinol.<br><br>Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd yn cynnwys targedau i:<br>• Cynyddu niferoedd y plant 3 a 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud o un cam addysg i'r llall<br>• Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol<br>• Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegu<br>• Ehangu'r gweithlu addysgu Cymraeg<br><br>Mae Deilliant 6 y CSCA yn nodi bwriad y Cyngor i gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.<br><br>Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd ar gael i'w weld yn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd.pdf |
| **Crynodeb** |
| Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gyda chynnydd yn nifer y lleoedd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol cyfrwng Cymraeg. |

**Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

**Darpariaeth Arbenigol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Byddai'r newid yn cefnogi'n uniongyrchol dwf addysg Gymraeg ac yn cyd-fynd â deilliannau, nodau a dyheadau Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog a chynllun CSCA 10 mlynedd Cyngor Caerdydd ac ymateb yn uniongyrchol i Ddeilliant 6 y CSCA:

- Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 253.

Ar hyn o bryd, cynigir darpariaeth ysgol arbennig i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Mae darpariaeth canolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Dangosodd adborth o'r arolwg a gyflwynwyd i ysgolion ym mis Mai a mis Mehefin 2025 fod angen cynyddu'r ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid gwybodaeth yr arolwg hwn yn dangos cyfran y dysgwyr a allai fod yn gymwys i gael lle mewn ysgol arbennig neu le mewn canolfan adnoddau arbenigol.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion arbennig, ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr y nodir eu bod yn gymwys ar gyfer lle mewn ysgol arbennig, y mae angen addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwy iaith, neu lle ffefrir hynny, ar eu cyfer.

Byddai'r cynigion yn gwella dosbarthiad lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn cynyddu nifer y lleoedd arbenigol cyfrwng Cymraeg, gan ganiatáu i ddysgwyr gael cymorth priodol ac i rieni fod yn hyderus y bydd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu, yn yr iaith o'u dewis.